

# YMDDEOLIAD HYBLYG

---

## CYNNWYS:

- 1 RHAGARWEINIAD
  - 1.1 Y POLISI
  - 1.2 CWMPAS
- 2 YMDDEOLIAD HYBLYG
- 3 Y BUDDION SY’N DALADWY
- 4 FFORDDIADWYEDD
- 5 AWDURDODI CEISIADAU
- 6 GWEITHIO AR ÔL 65 OED
- 7 CYFYNGIADAU AR ENILLION
- 8 CYFLWYNO’R CAIS

2012



## POLISI YMDDEOL YN HYBLYG

Seilir y polisi hwn ar drefniadau a fabwysiadwyd gan Gyngor Sir Ynys Môn.

### 1. RHAGARWEINIAD

#### 1.1. Y POLISI

Mae Cwmni CYNNAL yn cydnabod yr angen i gadw sgiliau a phrofiad gweithwyr hŷn er budd y sefydliad a'r gymuned gyfan. Mae CYNNAL wedi ymrwymo felly i weithio gyda'i weithwyr i hwyluso trefniadau ymddeol hyblyg a fydd yn bodloni anghenion yr unigolyn a'r gwasanaeth. Mae'r trefniant ymddeol yn hyblyg yn fodd i gynorthwyo staff i drosglwyddo'n llyfn i'w hymddeoliad.

#### 1.2. CWMPAS

Bydd y trefniadau hyn yn berthnasol i holl weithwyr Cwmni CYNNAL sy'n aelodau o Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol.

### 2. YMDDEOLIAD HYBLYG

Ymddeoliad hyblyg yw lle mae gan weithwyr dros 55 oed yr hawl i ofyn i ymddeol ar ddyddiad penodol, gan godi eu pensiwn cronedig, ac yna parhau i weithio ar gytundeb rhan amser ar yr un raddfa gyflog, neu mewn swydd lai dwys ar raddfa gyflog is. *(Fe all y cyfnod pellach yma o wasanaeth fod yn bensiynadwy neu'n amhensiynadwy, yn dibynnu ar ddymuniad y gweithiwr).*

Yn ogystal, fe all y gostyngiad fod yn un parhaol, neu am gyfnod penodol o amser (e.e. dwy flynedd). Trafodir hyn yn unigol gyda phob gweithiwr.

Bydd rhaid i'r cyfnod pellach o wasanaeth ddangos :

- gostyngiad mewn oriau, neu
- newid mewn dyletswyddau / dwysedd swydd sy'n golygu gostyngiad mewn graddfa gyflog.

Nid oes raid i'r newid fod yn un mawr. Fodd bynnag, rhaid i'r newid gwrdd ag ateb anghenion y gwasanaeth **a rhaid i'r cyflogwr ei gymeradwyo**. Er bod gan weithwyr yr hawl i ofyn am newid yn eu horiau gwaith neu yn nwysedd eu swydd, **nid oes rhaid i'r cyflogwr ganiatáu y cais**.

Pe bai'r cais yn golygu cost i'r Cwmni, mae'n annhebygol y byddai'r cais yn cael ei gymeradwyo, oni bai bod achos busnes gwirioneddol dros wneud hynny.

### 3. Y BUDDION SY'N DALADWY

Wrth ymddeol yn hyblyg, bydd gan weithwyr hawl i'w pensiwn cronedig a'u lwmp swm ar y dyddiad "ymddeol," yn amodol ar unrhyw ostyngiad actiwarial.

Efallai y bydd gan weithwyr a oedd yn cyfrannu at y cynllun cyn 30<sup>ain</sup> Medi 2006 rywfaint o ddiogelwch os ydynt yn cymryd ymddeoliad hyblyg rhwng 60 a 65 oed. Fodd bynnag, os byddant yn ymddeol rhwng 55 a 59 oed, bydd eu buddion pensiwn yn dal i ostwng i adlewyrchu'r taliad buan. Ni fydd Cwmni CYNNAL yn digolledu'r gweithiwr am unrhyw ostyngiad neu gostau a wynebwr drwy ymddeol yn hyblyg.

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch ag Adain Bensiynau Cyngor Gwynedd, a fydd yn gallu paratoi amcangyfrif o'ch buddion, a'ch cyngori yn llawn ar oblygiadau ymddeol yn hyblyg.

### 4. FFORDDIADWYEDD

Pe bai cost yn disgyn ar CYNNAL i ddigolledu'r gronfa bensiwn (drwy ganiatáu gweithio i

ymddeol yn hyblyg) dylid cwrdd a'r gost dros gyfnod o bum mlynedd. Penderfynir hyn trwy gwblhau Ffurflen Aseiad Achos ynghyd â datganiad o fusnes.

**5. AWDURDODI CEISIADAU**

Rhaid i ymddeoliadau hyblyg gael eu cymeradwyo gan y Prif Weithredwr ar ran yr Is-Bwyllgor Personél / Pwyllgor Rheoli, a rhaid iddo gwblhau ac arwyddo ffurflen asesu achos.

Bydd adroddiad yn cael ei gyflwyno er gwybodaeth i'r Pwyllgor Rheoli, mewn perthynas ag achosion sy'n cael eu cymeradwyo.

**6. GWEITHIO AR ÔL 65 OED**

Cydnabyddir y bydd rhai gweithwyr yn dymuno gweithio ar ôl 65 oed ac felly mae gan weithwyr sy'n nesáu at yr oed ymddeol arferol yr hawl i ofyn am gael gweithio ar ôl 65 oed. Gallai hynny naill ai fod ar ffurf ymddeoliad hyblyg, neu gallent barhau yn eu swyddi presennol heb gymryd eu pensiwn.

Os caniateir cais i weithio ar ôl 65, bydd hyn am gyfnod o hyd at flwyddyn ar y tro. Yn ystod y cyfnod hwnnw, gall gweithwyr gyflwyno cais i weithio am gyfnod pellach.

**7. CYFYNGIADAU AR ENILLION**

Nid yw'r rheoliadau pensiwn blaenorol (oedd yn gosod uchafswm ar yr hyn allai gweithwyr ei ennill) yn dal i fod mewn grym. Felly, ni fydd unrhyw gyfyngiad ar yr uchafswm y gall gweithwyr ei ennill, pan fyddant yn manteisio ar y trefniadau ymddeol hyblyg.

**8. CYFLWYNO'R CAIS**

Bydd rhaid i weithwyr sy'n dymuno gwneud cais am ymddeoliad hyblyg gyflwyno cais ar ffurflen bwrpasol (copi ynghlwm) a'i hanfon i'r Adain Personél.

Awgrymir bod staff yn cyflwyno'r ffurflen gais mewn da bryd cyn eu dyddiad ymddeoliad arfaethedig. Mae'r broses o ystyried y ceisiadau yn cynnwys nifer o aseidiadau mewnol, ynghyd â chyflwyno'r cais i sylw'r Is-Bwyllgor Personél / Pwyllgor Rheoli. O reidrwydd, fe all gymryd rhai wythnosau i ymgynnull y cyfarfodydd hyn.



## CAIS I YMDDEOL YN HYBLYG

### FFURFLEN GAIS

ENW :	.....	DYDDIAD GENI :	.....
SWYDD :	.....		
GRADDFA GYFLOG:	.....	DYDDIAD YMDDEOL :	.....
HYD GWASANAETH AR Y DYDDIAD YMDDEOL:	.....	OEDRAN AR Y DYDDIAD YMDDEOL:	.....

#### MANYLION YR YMDDEOLIAD HYBLYG PARHAOL / DROS DRO

CYFNOD YR YMDDEOLIAD :	<b>O</b>	TAN	.....
NIFER O DDYDDIAU'R WYTHNOS :	LLAWN AMSER / RHAN AMSER (NODER NIFER O DDYDDIAU'R WYTHNOS) .....		
SWYDDOGAETH / DYLETSWYDDAU YN YSTOD Y CYFNOD :	.....		
GRADDFA GYFLOG :	.....		
<b><i>Dymunaf wneud cais i ymddeol, dan drefniadau Ymddeol yn Hyblyg Cwmni CYNNAL, yn unol â'r manylion uchod. Deallaf ni all CYNNAL fy nigolledu pe bawn yn colli unrhyw fuddion neu wasanaeth pensiynadwy drwy ymddeol yn hyblyg.</i></b>			
<b><i>Byddaf yn trafod goblygiadau'r cais (o ran y gwasanaeth a'r buddion pensiwn) yn llawn gydag Adran Bensiynau Cyngor Gwynedd.</i></b>			
Arwyddwyd :	.....	Dyddiad :	.....

#### ASESIAD O'R CAIS

Rwyf yn / nid wyf yn cymeradwyo'r cais uchod am y rhesymau canlynol :

.....

.....

Arwyddwyd (Rheolwr Llinell) : ..... | Dyddiad : | ..... |

Arbediad Effeithlonrwydd i CYNNAL :	£	.....	y flwyddyn.
Costau Digolledu'r Gronfa Pensiwn :	.....		
Arwyddwyd (Swyddog Cyllid) :	.....	Dyddiad :	.....
<b><i>Cymeradwyaf fod y cais yn unol â Pholisi Ymddeol yn Hyblyg Cwmni CYNNAL.</i></b>			
Arwyddwyd (Swyddog Personél) :	.....	Dyddiad :	.....
<b><i>Cymeradwyaf y cais ar ran Pwyllgor Rheoli CYNNAL.</i></b>			
Arwyddwyd (Prif Weithredwr) :	.....	Dyddiad :	.....

Dychwelwch y ffurflen i sylw'r **Swyddog Personél, Canolfan Dechnoleg CYNNAL, Maesincla, Caernarfon, Gwynedd. LL55 1RS.**